Independent Office for Police Conduct

# Frequently asked questions

## Post-decision questions about local resolution appeals

**Cwestiynau cyffredin**

Cwestiynau wedi penderfyniad ynghylch apeliadau datrysiad lleol

### 1. Beth yw canlyniadau posibl yr apêl?

Mae'r holl dystiolaeth yr ydych chi a'r awdurdod priodol wedi darparu i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) wedi ei astudio ac rydym wedi gwneud ein penderfyniad.

Gall canlyniad eich apêl naill ai gael ei 'gadarnhau' neu 'beidio ei gadarnhau'. Gellir cadarnhau apêl os fydd y canfyddiadau yn dangos na wnaeth y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu gyrraedd y safon y gall unigolyn rhesymol ei disgwyl.

Os na chadarnheir apêl, gall olygu bod y gwasanaeth mae'r heddlu wedi'i ddarparu wedi cyrraedd y safon y gallai unigolyn rhesymol ei disgwyl. Os felly, efallai na fydd yn ofynnol i'r heddlu weithredu ymhellach ynghylch eich cwyn.

Os byddwn wedi cadarnhau eich apêl, efallai y byddwn wedi dweud wrth yr awdurdod priodol bod yn rhaid cymryd camau penodol a elwir yn **gyfarwyddiadau**. Er enghraifft, gellid cyfarwyddo'r awdurdod priodol i ailymgeisio datrysiad lleol, neu i gynnal ymchwiliad lleol os oeddem yn teimlo nad oedd datrysiad lleol yn addas.

Gallwn hefyd wneud **argymhellion** i'r awdurdod priodol. Os ydyn ni wedi gwneud argymhellion i'r awdurdod priodol, yna rhaid iddo eu hystyried ac ymateb i ni. Gallai'r argymhellion gynnwys dysgu sefydliadol o'ch cwyn, er mwyn i'r heddlu allu dysgu o beth sydd wedi digwydd i sicrhau nad yw'n digwydd eto (er enghraifft, dylai heddlu newid ei bolisïau neu weithdrefnau hyfforddi) neu efallai y byddwn wedi nodi y gallai'r swyddog elwa o ddysgu neu hyfforddiant atodol.

Nid ydym yn gwneud argymhellion na chyfarwyddiadau ym mhob achos, hyd yn oed os ydym wedi cadarnhau apêl. Rydym yn edrych ar bob apêl fesul achos.

Dylai'r awdurdod priodol gysylltu gyda chi'n uniongyrchol i'ch hysbysu o ganlyniad unrhyw argymhellion neu gyfarwyddiadau a roddwyd iddynt. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad gyda'r awdurdod priodol i fonitro ei ymateb. Fodd bynnag, os nad ydych chi wedi clywed ganddynt o fewn 28 niwrnod, cysylltwch â nhw yn uniongyrchol, gan na fydd yr IOPC yn gallu eich diweddaru ar unrhyw gynnydd.

Gweler trosodd.

## 2. A allaf gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y penderfyniad?

Na, ni allwch ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y penderfyniad. Yr amser pan wnaethoch chi eich apêl oedd eich cyfle i'n darparu â'r holl wybodaeth ofynnol i'w ystyried.

## 3. Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn cytuno â phenderfyniad yr IOPC?

Nid oes hawl i apêl yn erbyn ein penderfyniad. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu fod arnoch angen rhagor o wybodaeth am ein penderfyniad apêl, cysylltwch â ni fel ein bod yn medru esbonio'r rhesymau am y penderfyniad ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Dylech gael gwybod bod penderfyniadau apêl yr IOPC yn derfynol. Mae hyn yn golygu mai dim ond y llysoedd, drwy'r broses adolygiad barnwrol, all wyrdroi unrhyw benderfyniad a wnawn a'i gyfathrebu i'r partïon dan sylw. Dylech geisio eich cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun os bwriadwch symud ymlaen fel hyn.

## 4. Beth os nad wyf yn fodlon â'r gwasanaeth a dderbyniais?

Os nad ydych yn fodlon ar y gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn gennym, neu os ydych eisiau mynegi anfodlonrwydd, gallwch gyflwyno eich cwyn i Uned Ymchwiliadau Mewnol yr IOPC. Bydd aelod o staff yn ymateb i'ch cwyn yn ôl hynny. Nid yw'n rhan o'i rôl i ddelio â'ch pryderon ynghylch y penderfyniad (oherwydd mae'r penderfyniad yn derfynol), ond yn hytrach i edrych ar y gwasanaeth a dderbynioch gan ein staff. Gallwch gysylltu ag Uned Ymchwiliadau Mewnol yr IOPC trwy anfon e-bost at: iiu@policeconduct.gov.uk

Sylwer: Mae'r wybodaeth yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan: www.policeconduct.gov.uk